



## Cyngor Cymuned Pennal Council

Cynhaliwyd Pwyllgor or Cyngor yn y ganolfan stafell Sychan ar Medi 11eg 2022 am 6.30

Derbyniwyd ymddiheuriad oddi wrth Rhys Parry pawb arall yn bresenol

Darllenwyd cofnodion mis Mai ni chafwyd Pwyllgor yn mis Mehefin roedd gwaith wedi eu wneud ir Archwiliad Mewnol

Trefnwyd gan y Cyngor noson agored I lansio Menter y Glan sef prynu y gwesty lleol yn Gorffennaf

Pwyllgor mis Medi wedi ei drefnu ond fe fi yn rhaid gohirio cariwyd y r agenda ymlaen ai chyplysu a materion I Pwyllgor mis Tachwedd.

Cadarnhawyd bod cofnodion Mai a materion eraill yn gywir gan Aled Rees ac eiliwyd gan Keneth Griffiths

Materion yn Codi.

Cynhaliwyd Dathliad y Jiwbilf ar y Marian gan fod yr Yswiriant yn caniatáu I hyn ond oherwydd y tywydd defnyddiwyd y Ganolfan.

Mynwent yr Eglwys nid oes ymateb wedi dod ir llythyr a anfonwyd .

Mynwent y Plwy Angen adnewyddu y ffens yma bu Sion Evans a Rhys yn trwsio dros dro ond mae angen pyst Newydd ac yn y blaen yna. ,hyn i'w drefnu eto.

Archwilio Pennal roedd Pennal yn un or Cynghorau eleni yn cael Archwiliad Uwch (super Awdit) golygu mynd a dogfennau I Gaernarfon erbyn Medi 5 neu 6 ed er mwyn ei hanfon I Gaerdydd Arwyddwyd bod y cyfrifon wedi ei derbyn yn Caernarfon

Talwyd E Owen am gwaith HMRC £156.00 a HMRC £300.

Talwyd am gostau Etholiadol Cyngor Gwynedd £107

Archwilio Mewnol wedi ei dalu £222.0

Clerc Newydd

Wedi cysylltu a mi ar Cadeirydd fe gadarnhawyd bod Huw Jones clerc Cyngor Dinas Mawddwy a diddordeb yn cymryd y swydd, fe gyfarfu Huw Jones ar clerc ac aethpwyd trwy y gwaith ynghlwm a cyngor Pennal gan ei fod yn glerc yn barod roedd y gwaith yn hollol gyfarwydd iddo sydd yn symleiddio y trosglwyddiad os cytuner gan y cyngor ei dderbyn fel clerc y cynnig oedd cyfarfod yn Ionawr gyda Huw a Deilwen yn bresennol ag yn a pwyllgor Mawrth lle fydd y ddau yn newid i diwedd y Flwyddyn ariannol a cadeirydd newydd 2023-24 popeth yn cyplysu gyda'i gilydd yn drefnus

Cyfarfodydd bob 6 wythnos

Trafodwyd y cais sydd yn cynnwys cyflog 0 £2000 a costau £500

Roedd y Cyngor yn unfrydol i dderbyn Huw Jones fel y clerc Newydd ac yn edrych ymlaen o gydweithio efo fo..

Fe fydd cyfarfod mis Ionawr lle bydd Huw Jones yn ymuno a ni ar clerc presennol felly yn gorffen diwedd Mawrth .

Fe fydd yn rhaid adnewyddu mandadem a cael y cyngor I wneud Bancio ar lein fe fydd yn rhaid ir clerc ar Cadeirydd fynd ir banc yn Aberystwyth I wneud hyn



## Cyngor Cymuned Pennal Council

Cyllideb 23-24 Aethpwyd trwy y gyllideb yn fanwl iawn a gwneir copi papur or cyllideb

### Precept 23-24

Wedi hir drafod gan fod llawer o bethau yn newid maen rhaid codi y precept yn sylweddol er mwyn cyfro costau am flwyddyn felly cytunwyd codi £15 000 dydi'r cyngor ddim wedi bod yn codi y gyllideb ers blynyddoedd yn gyson ond nawr mae gymaint o gostau ychwanegol yn dod gerbron maen rhaid.

Cynigiwyd gan Hywel Evans ag eiliwyd gan James Brunton pawb yn gytûn.

Diffibiwlator Roedd y clerc wedi cysylltu a Tomos Hughes sydd yn gofalu amdano.

### Bagiau swnd

Gofynnwyd I William Rees I archwilio hyn a phrynu beth sydd angen. Er mwyn cael bagiau I ddiogelu llifogydd o ddeudir pentref.

Gofynnwyd I Dewi Owen gwrrdyd a Sion Wilkes I fynd oddeitir pentref ac archwilio y manau sydd yn creu traferth ee draeniau ar Ffordd y Felindre.

Cais Cynllunio man Llwyth ger Cilfan ar y A493ir Dwyrain o Pennal

Lledu, rhoi wyneb Newydd ac ymestyn ramp mynediad presennol or gilfan ar ochor y fforddi floc ceidwad. Adeiladu trac tua 100m o hyd gân gynnwys lle troi ar ddiwedd y trac.

Trafodwyd a cynigiwyd gan Hywel Evans ag eiliwyd gan Aled Rees pawb yn gytûn Dim gwrthwynebiad.

T Cynllun Hyfforddiant Trafodwyd hyn ac aros cyn cael mwy o wybodaeth gyda'r clerc Newydd.

### Coeden Nadolig Newydd

Deallwyd bod y mater mewn llaw trwy Patneriaeth Pennal

Cyflog y Clerc Cytunwyd i'w Dalu. Aled Rees

Gwefan Y Cyngor £250 y flwyddyn Cytunwyd i'w dalu

Cais am Arian gan TI FI Pennal menter Newydd yn y pentre Cynigiodd Hywel Evans rhoi £200 tuag at y fenter eiliwyd gan William Rees cytunwyd I hyn hefyd gan fod cymaint o blant bach a rhieni yn dod o Aberdyfi roedd y Cyngor am ofyn wrth Cyngor Aberdyfi I gefnogir fenter.

### Ffioedd Mynwentydd

Tynnwyd I sylw y Cyngor ffioedd a fyddai yn glwm ar Fynwent Plwy Pennal.

Comisiwn Ffiniau Diweddera Edrychwyd ar y map a gwelwyd fod Pennal yn glwm a Corris a Mawddwy.

Menter y Glan Trafodwyd llawer a deallwyd bod nhw o fewn cyrraedd y nod I sicrhau dyfodol y fenter ,bydd llawer mwy o wybodaeth yn Pwyllgor mis Ionawr.